

Gwyddoniaeth

Ymchwiliwch sut mae sain (sŵn) yn cael ei greu.

Dewiswch ffordd greadigol i gyflwyno beth rydych wedi ei ddysgu.

Dylunio a Thechnoleg

Dylunio a chreu offeryn allan o ddeunyddiau ailgylchu.

Rowch eich syniadau i lawr ar bapur yn gyntaf gan dynnu llun a'i labelu hefo beth rydych yn bwriadu defnyddio.

Ar ôl gorffen- Cymharwch eich syniad gyda'r gwaith terfynol. Ydi o'n debyg? Wnaethoch chi newid unrhyw beth?

Iaith- Llawysgrifen

Beth yw eich hoff gân? Dewch o hyd i eiriau eich hoff gân o'r we.

Ysgrifennwch y geiriau allan yn eich llawysgrifen orau. Mae'n bosib addurno eich gwaith drwy gynnwys border neu luniau sy'n cyd-fynd a'r gan.

Iaith

Ysgrifennwch ffeil o ffeithiau am eich hoff cyfansoddwr/ canwr/ grŵp cerddoriaeth.

THEMA: CERDDORIAETH



Hanes

Mae cerddoriaeth wedi newid llawer dros y canrifoedd. Dyma'r 6 cyfnod gwahanol gerddoriaeth mewn hanes. Renaissance, Baróc, Clasurrol, Rhamantaidd, Modern a Chyfoes.

Fedrwch chi lunio llinell amser o'r wahanol gyfnodau cerddorol a dod o hyd i ffeithiau neu enghreifftiau o gyfansoddwr/ cantorion o'r cyfnodau gwahanol hyn?

Celf

Gwrandewch ar ddarn o gerddoriaeth glasurol. Mae cerddoriaeth yn aml yn creu darlun yn ein pen. Tynnwch lun o beth rydych chi'n ei ddychmygu wrth wrando ar y gerddoriaeth. Efallai eich bod yn dychmygu stori, taith arbennig neu efallai gwahanol batrymau neu deimladau.

Daearyddiaeth

Mae gan wahanol wledydd cerddoriaeth traddodiadol eu hun. Beth am fynd ati i ymchwilio cerddoriaeth traddodiadau gwahanol wledydd. Cyflwynwch yr hyn rydych yn ei ddysgu mewn ffordd greadigol.

Cerddoriaeth

Beth am ddysgu i ganu cân newydd neu ddarn newydd ar offeryn. Gyrrwch fideo i ni ohonoch chi'n perfformio.

Mae offerynnau yn cael ei grwpio mewn teuluoedd e.e.. Llinynnau, chwythbrennau, pres ac offerynnau taro. Dewiswch un teulu i ymchwilio neu beth am wneud prosiect bach ac ymchwilio i'r gwahanol deuluoedd. Beth am ddefnyddio Google Slides i gyflwyno gwybodaeth am wahanol offerynnau, neu dewiswch ffordd greadigol arall i gyflwyno gwybodaeth.

Techyd a lles

Mae caneuon yn aml yn gwneud i ni eisiau dawnsio! Beth am ddewis can bywiog rydych chi'n ei fwynhau a gwneud dawns i fynd gyda'r gerddoriaeth. Cofiwch yrru lluniau neu fideo i ni.

Beth am wneud ychydig o Zumba i gadw'n heini. Mae yn a llawer iawn o fideos ar y rhyngwrwd e.e. Just Dance Zumba. Cofiwch yrru llun neu fideo i ni.

Mae'n bwysig i ni gyd ymlacio. Mae yna lawer o gerddoriaeth i ymlacio ar y rhyngwrwd. Beth am roi cerddoriaeth ymlaen, cau eich llygaid ac ymlacio am ryw 5-10 munud pob dydd.